Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 323

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid ar gyfer Ymgyrch Nadolig GanBwyll**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae GanBwyll, Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru, wedi gofyn am arian i gefnogi Ymgyrch Gyrru Dan Ddylanwad Alcohol a Chyffuriau'r Nadolig.

Mae gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau'n un o bum brif achos anafedigion ffyrdd yng Nghymru. Mae'r ymgyrch hon yn anelu i godi ymwybyddiaeth am y peryglon sy'n gysylltiedig â gyrru dan ddylanwad, gan atal anafiadau neu farwolaethau ar ffyrdd Cymru.

Bydd GanBwyll yn gweithio mewn partneriaeth â heddluoedd Cymru, partneriaid yr heddlu a Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn codi ymwybyddiaeth am beryglon gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau drwy gydol fis Rhagfyr. Bydd hyn drwy gymysgedd o hysbysebu ar fysiau, hysbysebion fan digidol, erthygl nodwedd ar-lein, a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r cais am gyllid yn bodloni'r Cynllun Heddlu a Throseddu drwy hyrwyddo diogelwch y ffyrdd ymysg cymunedau Dyfed-Powys.

**Argymhelliad:**
Rhoi £1,125 i Ymgyrch Nadolig GanBwyll o'r Gronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** 

**Dyddiad: 12/12/23**